NMPA
National Maternity & Perinatal Audit

# Sut caiff eich data eu defnyddio gan NMPA: gwybodaeth i ferched a phobl sy'n rhoi genedigaeth sy'n bwriadu geni yng Nghymru, neu sydd wedi rhoi genedigaeth yng Nghymru (Hysbysiad Prosesu Teg)

## Mae unedau mamolaeth y GIG yn cymryd rhan mewn archwiliad clinigol cenedlaethol o'r enw'r Archwiliad Mamolaeth ac Amenedigol Cenedlaethol (NMPA).

### Beth yw archwiliad?

Mae archwiliad yn defnyddio data i archwilio, adolygu a dadansoddi perfformiad gwasanaeth yn annibynnol.

Mae archwiliad clinigol yn caniatáu i'r rheini sy'n darparu, a'r rheini sy'n defnyddio, gwasanaeth iechyd gael gwybod sut mae'r gwasanaeth yn perfformio mewn perthynas â'r safonau cenedlaethol sydd ar gael, ac mewn cymhariaeth â gwasanaethau cyffelyb eraill.  Nod archwiliad clinigol yn y pen draw yw adnabod newidiadau a fydd yn annog gwelliannau yn ansawdd y gofal a gwella canlyniadau i'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth iechyd.

### Beth yw pwrpas yr archwiliad hwn?

Nod yr NMPA yw astudio sut ofal a gaiff mamau, pobl sy'n rhoi genedigaeth, a'u babanod ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r NMPA yn ei gwneud hi'n haws i ddarparwyr gofal mamolaeth fonitro a gwella'r gofal maen nhw'n ei ddarparu. Mae'r archwiliad yn cynnwys gwybodaeth ynghylch yr holl famau, pobl sy'n rhoi genedigaeth a babanod ar gyfer genedigaethau ar ôl 1 Ebrill 2014.

### Pwy fydd yn elwa o'r archwiliad hwn?

Bydd yr archwiliad clinigol hwn yn helpu darpar rieni a'u babanod drwy roi hawl iddynt at ddata yn ymwneud â gwasanaethau yn eu hardal, gan eu helpu i wneud penderfyniadau dysgedig am eu gofal. Yn ogystal, bydd yn helpu i wella ansawdd y gofal a gânt. Caiff unedau mamolaeth adroddiadau y gellir eu defnyddio i gymharu ansawdd y gofal a ddarparant ag unedau eraill. Mae hyn yn eu galluogi i ofalu am ferched, pobl sy'n rhoi genedigaeth a'u babanod yn fwy effeithiol. Mae pob adroddiad gan yr NMPA ar gael i'r cyhoedd drwy wefan yr NMPA (https://maternityaudit.org.uk).

### Pa wybodaeth a gaiff ei defnyddio?

Fel rhan o ofal mamolaeth arferol, caiff gwybodaeth electronig ei chasglu eisoes ynghylch yr holl ferched a phobl sy'n rhoi genedigaeth sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth y GIG. Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio gan staff unedau mamolaeth bob dydd yn yr un modd ag y caiff cofnodion meddygol papur eu defnyddio.

Ar gyfer genedigaethau o 1af Ebrill 2014 ymlaen, mae'r NMPA yn derbyn gwybodaeth gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) gynt) heb gynnwys

gwybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod pobl. Mae'r data yr ydym yn eu derbyn yn cael eu '**rhoi o dan ffugenw**' sy'n golygu nad ydym yn derbyn gwybodaeth bersonol, fel eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad, cod post, na'ch rhif GIG.

Caiff y data eu cadw cyhyd â'r cytundeb rhannu data â'r darparwyr data (DHCW). Mae hyn yn unol â hyd ein contract NMPA hefyd (hyd at fis Rhagfyr 2025 ar hyn o bryd). Mae hyn yn rhoi amser i ni ymateb i ymholiadau sy'n ymwneud â'r data. Er enghraifft, gall unedau mamolaeth gysylltu â ni i gael mwy o wybodaeth ynglŷn â'u canlyniadau.

## Beth sy'n digwydd wedyn?

Mae'r darparwyr data yn cyfuno gwybodaeth o nifer o wahanol ffynonellau cenedlaethol. Mae hyn yn caniatáu i'r NMPA weld a gawsoch eich derbyn yn ôl yn yr ysbyty ar ôl rhoi genedigaeth, er enghraifft. Rydym yn defnyddio'r data (dan ffugenw) hyn i ysgrifennu adroddiadau yn asesu gofal mamolaeth ar lefelau lleol a chenedlaethol. Mae cyfuno'r data hyn yn caniatáu i ni gael darlun ehangach o wasanaethau a chanlyniadau gofal mamolaeth. Ni fydd unrhyw beth yn yr adroddiadau, na'r ffordd y cânt eu defnyddio, yn dangos unrhyw wybodaeth a allai arwain at eich adnabod chi neu'ch baban.

## Sut ydw i'n gwybod y bydd yr wybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel?

Caiff yr holl wybodaeth a gedwir gan yr NMPA ei storio'n ddiogel yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (DPA 2018) a deddfwriaeth berthnasol arall. Fel rhan o'n cytundeb rhannu data, ni allwn rannu'r data sy'n ein cyrraedd ni ag unrhyw unigolyn na sefydliad arall. Ar ben hynny, mae holl dîm yr NMPA yn cael hyfforddiant diogelwch data a thrin data blynyddol.

## Beth os oes gen i gwestiwn ynglŷn â'r defnydd o fy nata, a beth yw fy hawliau?

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r defnydd o'ch data, cysylltwch â'r darparwyr data (Iechyd a Gofal Digidol Cymru) sy'n casglu'r data ac yn cael gwared ar yr wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod rhywun cyn anfon at yr NMPA.

## Beth yw fy hawliau pan fyddwch yn defnyddio fy nata?

Mae gennych yr hawl i gwyno am y modd mae'r NMPA yn trin eich gwybodaeth. Os ydych chi'n credu bod problem, yna cysylltwch â ni yn y lle cyntaf, ac os nad ydych yn fodlon ar ein hymateb, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth *******

******* Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn https://ico.org.uk/concerns/handling/

National Maternity and Perinatal Audit (NMPA)
Royal College of Obstetricians and Gynaecologists
10-18, Union St, Llundain SE1 1SZ
Ffôn: +44 (0)20 7772 6482 E-bost: nmpa@rcog.org.uk
Gwe: www.maternityaudit.org.uk
Rhif elusen gofrestredig 213280